

Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Pwyllgor Dethol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK on Dydd Iau, 25ain Gorffennaf, 2024 at 10.00 am

Councillors Present

County Councillor Armand Watts (Chairman)
County Councillor (Vice Chairman)

County Councillors: Jill Bond, Meirion Howells,
Penny Jones, Tony Kear, Malcolm Lane,
Dale Rooke, and Jan Butler

Also in attendance County Councillors:

Officers in Attendance

Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu
Sharran Lloyd, Rheolwr Datblygu Bwrdd
Gwasanaethau Lleol
John Crandon, Swyddog Diogelwch y Gymuned
Gareth Walters, Arweinydd Tîm Safonau Masnach
ac Iechyd Anifeiliaid
Rachel Calnan, Trading Standards Officer
Ian Muirhead, Community Safety Officer

APOLOGIES: County Councillors Steven Garratt and Frances Taylor

1. I ethol Cadeirydd.

Cynigiwyd y Cynghorydd Watts gan y Cynghorydd Bond ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Kear.

2. I benodi Is-gadeirydd

Cynigiwyd Cynghorydd Jones gan y Cynghorydd Rooke ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Bond.

3. Datganiadau o Fuddiant

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

4. Fforwm Aqored i'r Cyhoedd

Ni dderbyniwyd unrhyw gyflwyniadau.

5. Fepio anghyfreithlon

Cafwyd cyflwyniad gan Gareth Walters a Rachel Calnan ar fater fepio anghyfreithlon, ei effaith ar ieuentid, rôl safonau masnach, ac ymdrechion i frwydro yn erbyn y broblem. Wedi hynny, atebwyd cwestiynau'r Aelodau gyda John Crandon:

Pwyntiau allweddol a godwyd gan yr Aelodau:

- Gofynnodd yr Aelodau pa ganran sy'n cael ei brynu ar-lein. Cafwyd trafodaeth ynghylch sut y gall lleygwyr wahaniaethu rhwng fepio cyfreithlon ac anghyfreithlon mewn siopau, gan ganolbwyntio ar nodi cynhyrchion sy'n cydymffurfio.
- Trafododd y Pwyllgor a oes unrhyw dystiolaeth bod hon yn broblem sy'n dod i'r amlwg ar lefel ysgol gynradd.

- Roedd pryder nad yw rhai pobl ifanc yn cael digon o wybodaeth am y niwed i iechyd y gall fepio ei achosi ac efallai nad yw hynny'n ddigon o dystiolaeth bod fepio yn broblem iechyd i fod yn ataliad.
- Amlygodd Aelod fod gyrwyr yn fepio a diogelwch ffyrdd hefyd yn bryder.
- Gofynnodd yr Aelodau pa mor amlwg yw gwerthiannau anghyfreithlon a sut y gallai Aelodau ei weld. Gofynnwyd a oes unrhyw fannau problemus ar gyfer gwerthiannau fepio anghyfreithlon yn Sir Fynwy a sut y gall trigolion adrodd am werthiannau o'r fath a beth yw'r broses i drigolion adrodd am bethau.
- Roeddent hefyd yn gofyn am eglurhad ar yr ymdrechion addysgol ynglŷn â risgiau iechyd a ddaw o fepio.
- Mynegodd Aelod ddiddordeb yn y rheolaethau dros werthu teclynnau fepio ar y rhyngwyd, effeithiolrwydd rheolaethau mewnforio, a tharddiad gweithgynhyrchu fepio a beth yw'r rheoliadau. Er enghraifft, o ran ychwanegu TCH, sut mae atal hynny?
- Awgrymodd yr Aelod hefyd y dylid gwella'r modd y mae gwybodaeth am sesiynau anwedd ar-lein yn cael eu lledaenu.
- Holodd yr Aelodau beth sy'n digwydd os bydd trosedd yn digwydd eto a pha mor hir y mae rhywun yn cael ei roi i newid ei ffyrdd cyn bod erlyniad ac a fu unrhyw erlyniadau.
- Gofynnodd yr Aelodau a yw cynhyrchion newydd yn cael eu cyflwyno'n barhaus i osgoi'r ddeddfwriaeth ac felly sut yr ydym yn cadw ar ben y diwydiant, nid dim ond y gwerthwyr.
- Gofynnodd Aelod am y cyswllt gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd newydd ac a oes perthynas dda rhwng safonau masnach a'r heddlu, a sut mae'n gweithredu ar sail ymarferol.
- Gofynnodd yr Aelodau am gyfleoedd i gael rhieni ac Aelodau i gyfathrebu'n ehangach.
- Mynegodd yr Aelodau eu pryderon ynghylch y broblem gynyddol o fepio anghyfreithlon, yn enwedig ymhlith plant a phobl ifanc, sy'n arwain at ddibyniaeth ar nicotin a phroblemau iechyd, yn enwedig presenoldeb nicotin mewn cynhyrchion sydd wedi'u labelu fel rhai di-nicotin.
- Gofynnodd yr Aelodau sut mae ysgolion, yr heddlu, a thimau diogelwch cymunedol yn gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â'r mater. Trafodwyd hefyd ddatblygiad adnoddau addysgol ac ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc a rhieni.
- Gofynnodd yr Aelodau am ddeddfwriaeth newydd a allai reoleiddio fepio yn fwy llym a'u halinio â chynhyrchion tybaco a chlywsant fod angen parhau i fod yn wylidwrus ac addasu i ddatblygiadau newydd yn y farchnad. Amlygodd yr Aelodau fod y mater yn gymhleth a chawsant eu cysuro bod dull amlochrog yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael gyda fepio anghyfreithlon.

Crynodeb y Cadeirydd:

Diolchodd y Cadeirydd i Gareth a Rachel am eu gwaith sylweddol yn brwydro yn erbyn fepio anghyfreithlon a dywedodd fod yr Aelodau'n teimlo'n fodlon â'r atebion cynhwysfawr a roddwyd i'r pryderon am orfodi, iechyd y cyhoedd, diogelwch cymunedol, a'r angen am gyfathrebu ac addysg effeithiol ar y mater o fepio. Cytunodd y Pwyllgor i ofyn am ddiweddariad pellach ymhen 9 mis i flwyddyn.

6. Blaenraglen Waith a Rhestr Weithredu'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cyhoeddus

Cytunodd yr Aelodau i anfon syniadau drwy e-bost. Cafwyd cais bod swyddogion perthnasol y Cyngor yn bresennol pan gyflwynir Iechyd Meddwl. Cafwyd cadarnhad y bydd gweithdy Aelodau (nad yw'n cael ei ffrydio'n fyw) gan y Pwyllgor ar Reilffyrdd Sirol yn cael ei drefnu ar gyfer yr Hydref.

7. Cynllunydd Gwaith y Cyngor a'r Cabinet

Nodwyd hyn.

8. Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 7fed Mai 2024

Cadarnhawyd y cofnodion a chynigiwyd hyn gan y Cynghorydd Rooke ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Howells.

9. I nodi dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf: 14eg Hydref 2024 am 10.00am

14eg Hydref 2024 am 10.00am.

The meeting ended at **11.26 am**